8.61

# PRIODASGERDD

## GWILYM WILLIAMS, YSWAIN,

### (AB ALAW GOCH), CASTELL MISCYN,

A

## MISS EMMA WILLIAMS, ABERPERGWM,

**A UNWYD RHAGFYR Y 7fed, 1864.**

---

LLAW CARIAD, deg blethodd aur gadwyn yn llon,
Ac arni gosododd hardd gwlwm;
A mab Ynys Cynon ymrwymodd â hon,
Mewn undeb â merch Aberpergwm:
Mae'r Delyn a'r Awen trwy hyn yn cael gwledd,
Gan fiwsig, Cwm Nedd sy'n adseinio;
A'r Cynon sy'n canu caniadau llawn hedd,
A bryniau Morganwg yn dawnsio.

Dolenau dwy linach goleddol i'n hiaith,
Lwyr assiwyd ar eingion anwyldeb;
Curiadau gordd serch a gyflawnodd y gwaith,
Ac â swyn cabolwyd yr undeb:
Ac felly trwy assio'r ddwy gadwyn yn un,
Yn ngweithfa ddihalog dwy galon,
Fe ddaeth Aberpergwm yn mynwes y fun,
I gysswllt â Thŷ Ynys Cynon.

Am hyn mae Morganwg ar flaenau ei thraed,
Yn edrych dros ysgwydd ei masnach;
Gan sylwi yn llon ar gylchrediad ei Gwaed
Breninol, yn mron ei Hen Linach:
A theimla yn llawen wrth weled mor glir
Y treigla trwy'r oesau'n olynol;
Gan gadw'n ddi-halog, coethedig, a phur,
Heb gymysg âg un gwaed estronol.

Gwythienau Cymreig yw y llwybrau a fŷn,
Bob amser yn redle naturiol;
A chafwyd un prawf ychwanegol o hyn,
Ar ddydd y briodas bresenol:—
Dwy galon yn berwi o serch at eu gwlad—
Dwy galon orseddwyd âg urddas—
Dwy galon heb wybod am goledd un brâd,
Goronwyd dan gwlwm priodas.

Praff golofn gadarn dan nenfwd ein hiaith
Bob amser y caed Aberpergwm;
A myn ymhyfrydu o hyd yn y gwaith,
O'i dal rhag ei sathru gan orthrwm:
A chaed Ynys Cynon yn golofn gref,
I gynal i fyny'n defodau;
Hoff nawdd i'n llenyddiaeth fu Alaw, ac ef
Oedd addurn ein prif Eisteddfodau.

Ac weithian fe roed y ddwy golofn yn un,
Ar gedyrn sylfeini o gariad;
A gwena Morganwg wrth weled ei llun
Mewn cerfiad ar golofn yr uniad:
A'r Awen sy'n tynu wrth linyn ei chloch
Mewn egni, a hyn yw cyfanswm
Ei seiniau,—"Hawddamor i Ab Alaw Goch,
Hawddamor i Ferch Aberpergwm."

O gwmwl Rhagluniaeth, bendithion i'r ddau,
Yn freision gawodau fo'n disgyn;
A bydded haul llwyddiant o hyd yn parhau,
I wenu yn siriol ar Miscyn:—
Boed blodau llawenydd yn addurn i'r fan,
A changau Pren Cysur yn ffrwytho;
Gan ddwyn sypiau llonder yn gyson i ran
Y teulu fo yn ei breswylio.

Awelon hyfrydwch, heb un corwynt croes,
Fo arnynt yn chwythu yn gyson;
A bydded eu cynnydd holl ddyddiau eu hoes,
Yn chwyddo fel tonau yr eigion:
Boed mur o ddedwyddwch o'u hamgylch o hyd,
Ac hawddfyd ddylifo i'w meddiant;
Eu bwrdd fyddo'n llwythog o frasder y byd,
A'u bywyd yn hedd ac yn fwyniant.

Tra pery blynyddoedd eu bywyd, parhaed
Eu dyddiau yn llawn o orfoledd
A rhinwedd fo'n risiau dan wadnau eu traed,
I ddringo i binacl anrhydedd:
Dyrchafer eu clodydd â thafod ein hiaith,
A'u henwau fo'n hyfryd arogli
Yn ffroenau Gwyllt Walia, a boddus fo'u taith,
I fyny ar brif-ffordd daioni.

Dwfn-gerfier eu henwau ar galon eu gwlad,
I'w cadw mewn parch cyssegredig;
A bri cenedlaethol fo'n goron i'w had,
Hyd derfyn yr oesoedd pellenig:
A phan ddaw ei gyrfa ddaiarol i ben,
Boed iddynt gael bythol gyd-orphwys;
A byw yn dragwyddol ar ffrwythau y Pren
Sy'n fywyd i'r Nefol Baradwys.

DAFYDD MORGANWG.

JOSEPH WILLIAMS,] [ARGRAFFYDD, MERTHYR.